

Tasg 4

(Estynnol, sbardun 1)

Wrth ysgrifennu'r adolygiad, penderfynodd yr adolygydd ddilyn cynllun arbennig.

1. Eglurwch betheth mae'r adolygydd yn ei wneud ym mhob cam o'r cynllun.

Adolygiad o <i>Cool Runnings</i>	Beth mae'r adolygydd yn ei wneud?
Mae'r ffilm <i>Cool Runnings</i> , sydd wedi ei chynhyrchu gan Jon Turteltaub, yn sôn am dîm o Jamaica yn cystadlu yng Ngemau Olympaidd y Gaeaf yn Calgary, Canada, yn 1988. Y prif actorion yw Leon Robinson, Doug E. Doug, Rawle D. Lewis, Mailk Yoba, Raymond J. Barry a John Candy.	Cam 1
Yn y ffilm, mae pedwar dyn o Jamaica yn penderfynu cystadlu yn y gystadleuaeth bobsled yng Ngemau Olympaidd y Gaeaf. Ar y dechrau, does ganddyn nhw ddim syniad beth yw bobsled – rhaid iddyn nhw edrych am wybodaeth mewn llyfrau. Maen nhw'n dechrau ymarfer drwy ddefnyddio hen gart ar hyd ffyrdd cul Jamaica ac maen nhw'n cael ambell ddamwain! Yna, maen nhw'n cyrraedd Calgary – heb sled! Maen nhw'n cael benthg hen fobsled ac maen nhw'n ei lanhau, ei beintio a'i enwi'n <i>Cool Runnings</i> . Ar ôl ambell dro trwstan, maen nhw'n cystadlu yn y Gemau.	Cam 2
<p>Mae hon yn ffilm dda iawn am nifer o resymau. Yn gyntaf, mae tipyn o hiwmor ynddi, e.e. wrth i un o'r tîm aros mewn rhewgell mewn fan hufen iâ er mwyn ceisio dod i arfer ag oerfel, neu wrth i'r tîm ymarfer symud gyda'i gilydd mewn bath (gan nad oes ganddyn nhw fobsled). Mae'r ddeialog yn ysgafn ac yn fywiog hefyd.</p> <p>Mae'r cymeriadau'n wahanol i'w gilydd. Mae Sanka, (Doug E. Doug), a'i wy lwcus, yn ddoniol. Mae Yul Brenner (Mailk Yoba) yn gymeriad difrifol. Mae Derice (Leon Robinson) yn gymeriad penderfynol ac mae Junior (Rawle D. Lewis) yn gymeriad hoffus iawn. Fel mewn pob ffilm dda, mae tensiwn rhwng y cymeriadau hyn weithiau a rhwng un o'r cymeriadau a'i dad ac mae hyn yn gwneud y plot yn ddiddorol.</p> <p>Mae'r ffilmio'n wych – mae'r golygfeydd o Jamaica ac o'r Gemau Olympaidd yn anhygoel – ac mae'r gerddoriaeth drwy gydol yn ffilm yn drawiadol. Mae'r gerddoriaeth <i>reggae</i> ar y dechrau yn creu naws arbennig ac mae'r band dur sy'n chwarae'n dawel yn y cefndir wrth i'r cystadleuwyr gystadlu yn y ras yn ein hatgoffa ni mai pobl o Jamaica sy'n cystadlu.</p>	Cam 3
Cafodd y ffilm ei rhyddhau yn 1993 a bellach mae i'w gweld ar DVD neu ar y we. Mae'n werth ei gweld – yn enwedig gan fod Gemau Olympaidd y Gaeaf ar fin cael eu cynnal eleni.	Cam 4

2. Ysgrifennwch adolygiad o ffilm.

Gallwch chi ddilyn yr un cynllun ag uchod, os ydych chi eisiau, h.y.

- Cyflwyno'r ffilm, e.e. pwy sy wedi cynhyrchu, pwy yw'r prif gymeriadau ac ati
- Disgrifio beth sy'n digwydd – y plot
- Dadansoddi'r ffilm, e.e. sôn am y cymeriadau, y technegau ac ati
- Dweud pryd / ble mae'r ffilm ar gael a rhoi cyngor ynglŷn â'i gwyllo